

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 04.07.2017
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cynghorwyr ; Gethin Edwards, Eirion Evans, Mike Poston, Arwel Nicholas, Pamela Jones, Cyngorydd Sir, Irfon Jones.
Ymddiheuriadau: Dylan Jones, Danny Davies, Elfed Davies

Rhif Agenda	Nodiadau/ Penderfyniadau	I'w weithredu gan
Croesawu	Y Cadeirydd, Pamela Jones, yn croesawu'r Cynghorwyr newydd; Gethin Edwards ac Eirion Evans I'w cyfarfod cyntaf.	
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	MP am gywiro cyfeiriad at benodi'r Cynghorwyr newydd	
Materion yn Codi	<p>Orchardweb – Y Cwmni sydd â chyfrifoldeb dros gynnal gwefan yr hysbysfwrdd yn adrodd bod defnydd yn cael ei wneud o'r wefan. Fydd cost o £60 I barhau'r wasanaeth. AN yn cynnig talu'r swm a GE yn eilio.</p> <p>Llongyfarch Ryan Elias – AN yn holi a oedd yna eraill o'r plwyf wedi cael llwyddiant ym meusydd arall ac fe ddywedwyd fod Aled Davies o Nebo wedi derbyn cap am chwarae rygbi dros Gymru, Jac Davies o Nebo wedi ennill Medal Aur Gymnasteg, ac hefyd, fod Gethin Edwards, ai frawd Aled, yn cynrychioli Cymru yn y gamp Bowlio Dan Dô. Clerc I ysgrifennu darn ar gyfer Llais y Llan.</p> <p>Gor-yrru heibio I'r Cae Chwarae – Cwynion fod trafndiaeth yn anwybyddu yr 20 mya, yn enwedig pan bod damwain ar yr A485. Steve Evans, Penbontbren yn awgrymu gosod 'chicane' bob pen I'r cae; Clerc I wneud ymholiadau.</p>	
Gohebiaeth	<p>IJ am wybodaeth ar Calonnau Cymru</p> <p>Fforwm Fferm y Felin – I'w gynnal ar 17.07.2017 I drafod cychwyn Fforwm I drafod trafndiaeth y Deml. AN yn gofyn am fwy o arwyddion sy'n cyfeirio i'r M4</p>	
Cynllunio	<p>Llwynglas – dim gwrthwynebiad</p> <p>Llandre – dim gwrthwynebiad</p> <p>Mast 4G – dim gwrthwynebiad</p>	
Materion Ariannol	<p>Yswiriant Zurich, -AN & GE</p> <p>Cyflog Clerc, AN & MP</p>	
UFA	<p>AN – torri gwair y cloddiau yn hwyr – Clerc I gysylltu gyda'r Cyngor</p> <p>MP – yn cyhoeddu ei fod yn ymddiswyddo ar un waith. PJ yn diolch iddo am ei gyfraniad ac yn dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol. AN yn gofyn a ydi cyfethol dal I fod yn opsiwn? Beth am ofyn I Derick Lock a ydi e am fod yn Gyngorydd? Clerc I holi Swyddfa Etholiadau ynglyn a chyfethol.</p>	

	EE – Dim GE – Dim IJ – Dim PJ – Clawdd caeau'r Deri yn rhwyst'r l gerbydau mawr, angen eu torri nôl	
Cyfarfod yn gorffen	9.30	

Cafwyd yn gywir : (Cadeirydd)	Cafwyd yn gywir : (Ysgrifennydd)
Dyddiad :	Dyddiad: